OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 113 (Cy. 20)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *3 Chwefror 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *ar 2:00 p.m. 4 Chwefror 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *ar 6:00 p.m. 4 Chwefror 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 124 a 203(9) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6:00 p.m. 4 Chwefror 2020.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Atodlen 1 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989**

**2.** Yn Atodlen 1 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989(**2**), yn Rhan 4 (clefydau eraill), ar ôl "Pandemic influenza (influenza caused by a new virus subtype that has an increased and sustained transmission during a global outbreak of influenza)" mewnosoder y cofnod a ganlyn—

"Wuhan novel coronavirus (2019-nCoV)."

(**1**) 2006 p. 42. Gweler adran 206 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 am ystyr "prescribed" a "regulations".
(**2**) O.S. 1989/306. Mewnosodwyd Rhan 4 o Atodlen 1 gan O.S. 2004/1433 (Cy. 146) ac fe'i diwygiwyd o ran Cymru gan O.S. 2009/1175 (Cy. 102).

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

3 Chwefror 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 ("y Prif Reoliadau"), sy'n darparu ar gyfer codi ac adennill ffioedd am wasanaethau perthnasol a ddarperir o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42) i bersonau penodol nad ydynt yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig.

Mae rheoliad 1 yn cynnwys darpariaethau cychwyn a chymhwyso.

Mae rheoliad 2 yn mewnosod "Wuhan novel coronavirus (2019-nCoV)" yn Atodlen 1 i'r Prif Reoliadau at ddiben creu esemptiad newydd rhag ffioedd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar gyfer unrhyw ymwelydd tramor y mae angen triniaeth arno ar gyfer coronafeirws newydd Wuhan (2019-nCoV).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.